**GORCHYMYN SIR GAERFYRDDIN**
**(HEOL Y GÂT, PEN-Y-GROES A HEOL Y LLEW DU, GORS-LAS)**
**(CYFYNGIAD PWYSAU ARBROFOL O 7.5 TUNNELL) 2025**

**Mae CYNGOR SIR CAERFYRDDIN** (y cyfeirir ato fel "y Cyngor" o hyn ymlaen), gan ddefnyddio ei bwerau o dan Adran 9 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf") a'r holl bwerau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i'r Ddeddf, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Cyfeirir at y Gorchymyn hwn fel "Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Heol y Gât, Pen-y-groes a Heol y Llew Du, Gors-las) (Cyfyngiad Pwysau Arbrofol o 7.5 Tunnell) 2025" a bydd yn dod i rym ar y Degfed dydd o Fawrth, Dwy Fil a Dau Ddeg Pump.

2. Yn y Gorchymyn hwn, mae i "cerbyd nwyddau" yr un ystyr ag a nodir yn Rheoliadau Cerbydau Ffyrdd (Adeiladu a Defnyddio) 1986.

3. Ac eithrio fel y nodir yn Erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn, ni fydd neb yn achosi neu'n caniatáu i unrhyw gerbyd nwyddau, y mae ei uchafswm pwysau gros yn fwy na 7.5 tunnell, fynd i mewn neu fynd ar hyd y darnau ffyrdd a nodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni fydd unrhyw beth yn Erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn atal unrhyw berson rhag achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd nwyddau deithio ar hyd y darnau ffyrdd y cyfeirir atynt os yw'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio:

   (a) ar gyfer cludo nwyddau i unrhyw safle neu o unrhyw safle sydd wedi'i leoli ar neu ger y ffordd dan sylw;

   (b) mewn perthynas â chyflawni unrhyw un o'r gweithrediadau a ganlyn ar safle sydd wedi'i leoli ar neu ger y ffordd, sef:

      (i) gwneud gwaith adeiladu, diwydiannol neu ddymchwel;
      (ii) gwaredu rhwystrau i draffig;
      (iii) cynnal a chadw, gwella neu ail-greu'r ffordd;
      (iv) gosod, codi, newid neu atgyweirio unrhyw garthffos, brif gyflenwad, pibell neu gyfarpar, yn y ffordd neu ar dir ger y ffordd,

ar gyfer cyflenwi dŵr, nwy neu drydan, neu unrhyw linell delegraffig (fel y'i diffinnir y Neddf Telathrebu 1984);

(c) yng ngwasanaeth yr awdurdod lleol, asiantaeth yr amgylchedd neu ymgymerwr dwr neu garthffosiaeth, er mwyn cyflawni pwerau neu ddyletswyddau statudol;

(d) i gael mynediad i safle neu dir ger y darnau ffyrdd dan sylw;

(e) at ddibenion amaethyddol; neu

(f) yn unol â chyfarwyddiadau a roddwyd gan gwnstabl yn ei lifrai.

**GWNAED** o dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Caerfyrddin ar y Trydydd dydd o Fawrth, Dwy Fil a Dau Ddeg Pump.

Rhoddwyd Sêl Gyffredin )

**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN** )

ar y ddogfen hon )

ym mhresenoldeb: )

Steven P Murphy

..........................................

**Steven P Murphy**

**Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil** 19017.

## YR ATODLEN

**CYFYNGIAD PWYSAU O 7.5 TUNNELL**

| Enw'r Ffordd | Y Darn Ffordd |
|---|---|
| Heol y Llew Du, Gors-las | O'r gyffordd â'r A476 hyd at y gyffordd â Ffordd Ddiddosbarth yr U2295 Ffordd Gyswllt Cross Hands |
| B4297 Heol y Gât, Pen-y-groes | O'r gyffordd â'r A476 hyd at y gyffordd â'r B4556 |

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# HEOL Y LLEW DU, GORS-LAS - CYFYNGIAD PWYSAU ARBROFOL 7.5t / BLACK LION ROAD GORSLAS - EXPERIMENTAL 7.5 TONNE WEIGHT RESTRICTION




Graddfa / Scale: 1:7500

Canol y Map / Map Centre: [257512,213352.6]


Dyddiad / Date: 02/11/2022

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022. Arolwg Ordnans 100023377

© Crown Copyright and database rights 2022. Ordnance Survey 100023377

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# HEOL Y GAT, PENYGROES - CYFYNGIAD PWYSAU ARBROFOL 7.5t / GATE ROAD, PENYGROES - EXPERIMENTAL 7.5 TONNE WEIGHT RESTRICTION




0 100 200 300m

| Graddfa<br>Scale | Canol y Map<br>Map Centre | Dyddiad<br>Date |
|---|---|---|
| 1:7500 | [258326.4,214166.4] | 02/11/2022 |

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022. Arolwg Ordnans 100023377
© Crown Copyright and database rights 2022. Ordnance Survey 100023377